

Cofion

Estynnwn ein cofion heddiw at Elizabeth Jones (Groes) sydd wedi treulio peth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar ond bellach wedi cael dod adre. Cofiw'n hefyd am Iorwerth Martin (Nantglyn) a dreuliodd ychydig nosweithiau yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Alys Davies (Nantglyn) gafodd anffawd i'w dwy fraich yn ystod yr haf. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn iddynt. Rydym yn codi'r tri ohonynt, ynghyd â phawb arall sydd mewn angen y dyddiau hyn, gerbron Duw.

Cais arbennig

Er mwyn hwyluso'r gwaith ieuencid yn yr Ofalaeth, byddai'r rhai sydd ynglŷn â'r gwaith o ddarparu gweithgarwch ar eu cyfer yn ddiolchgar petai pob capel yn dewis cynrychiolydd fel person cyswllt. Maent hefyd yn awyddus i gael gwirfoddolwyr fyddai'n barod i helpu gyda C.I.C. (sef y Clwb Ieuencid Cristnogol ar gyfer y rhai 11-14 oed) sy'n cyfarfod bob pythefnos ar nos Wener. Plis cysylltwch â Huw Tan y Graig (01745 582215) neu Rhodri Glyn (07814 660291) gydag enw eich cynrychiolydd, ac/neu os ydych chi'n barod i helpu yn achlysurol.

I ddod

- **Christian Viewpoint** - cyfarfod i'r merched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel, nos Lun, Medi 19eg am 7:30. Mwy o fanylion gan Mair (870632).
- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod Nos Iau, Medi 22ain yng Nghapel Henllan am 7.00 pryd y ceir cwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala.
- **Diwrnod o Ddiolchgarwch** – Diwrnod o ddathlu, rhoi diolch, gemau, addoliad, a chyflwyno rhodd Eglwys Bresbyteriaid Cymru i'r Cartref Cariadus dydd Sadwrn, Medi 24ain o 1:00 – 4:00 yng Ngholeg y Bala.
- Bydd cyfarfod o'r **Weinidogaeth Iachau** yng Nghapel Bethania, Rhuthun, dydd Sadwrn, Medi 24ain o 10:30 – 3:00. Dewch â chinio hefo chi – cewch baned yno. Croeso i bawb!
- ****CYFARFOD SEFYDLU ANEURIN YN WEINIDOG YM MRO ALED A CHYFARFOD COMISIYNU RHODRI GLYN YN GYNORTHWY-YDD GWEINIDOGAETHOL YM MRO ALED AR NOS SUL, HYDREF 2IL AM 6:00. MWY O FANYLION I DDILYN.**
- **Teulu Dedwydd?** - Diwrnod o gymdeithasu, hyfforddiant, ysbrydoli a chefnogaeth i rieni; arweinwyr eglwysig; a gweithwyr plant, ieuencid a theuluoedd yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Hydref 29ain o 10:30 – 3:00.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Medi 2011

Beth yw'r pwysicaf – cael arwydd gan Dduw neu credu yn Nuw? (Ioan 4:48-) Dyma'r hyn fyddwn ni'n myfyrio arno heno yn Oedfa'r Fro.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso cynnes i bawb i'r oedfaon. Gobeithio ein bod yn dod at Dduw heddiw yn ddisgwyllgar, gan ysu am brofi'r Ysbryd Glân yn ein harwain, ein hargyhoeddi a'n hadeiladu yn ein perthynas â'r Arglwydd. Peth braf iawn i mi yw cael eich cyfarch fel hyn a minnau ar gychwyn fy nghyfnod yn yr Ofalaeth. Diolch i bawb am y croeso yr ydw i wedi ei dderbyn yn barod ac mi fyddaf yn edrych ymlaen at gael cyfarfod mwy ohonoch dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod!

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, mae dŵr wedi bod yn rhywbeth sydd wedi dod i'm meddwl, a hynny am ddau reswm yn benodol. Yn gyntaf, yng Nghapel Curig yr ydw i'n byw, ac i'r rhai ohonoch fu'n gwranddo neu'n edrych ar y tywydd fe fyddwch wedi sylwi ein bod wedi gorfod dygymod â glaw difrifol acw (nid peth anarferol!). Wrth ei gweld hi'n tywallt y glaw, a'r caeau fu un waith yn wyrdd yn gweddnewid i fod yn llynnoedd, mae meddwl rhywun yn naturiol yn troi at hanes Noa a'r dilyw dychrynlyd y bu'n rhaid iddo ef ei wynebu. Yr hyn sy'n rhyfeddol am hanes Noa yw'r gras neu'r ffafr a ddangosodd Duw tuag ato a'i deulu (Gen. 6:8), a'r ffordd yr ymatebodd Noa i'r gras hwnnw. Er gwaetha'r hyn a welodd o'i amgylch, ymatebodd Noa mewn ffydd i'r hyn a ddywedodd Duw wrtho, a thrwy hyn y daeth i gael ei dderbyn yn gyfiawn yng ngolwg Duw (Heb. 11:7 Beibl.net). Doedd adeiladu arch yng nghanol anialwch heb fod yna unrhyw arlliw o law ddim yn beth hawdd i'w wneud, ond roedd Noa yn adnabod ei Arglwydd, ac yn gwybod y gallai ymddiried yn llwyr ynddo.

Yr ail reswm pam y bu i mi feddwl am ddŵr oedd oherwydd i mi fod mewn bedydd perthynas i mi y Sul diwethaf, ac yn y bedydd hwnnw, atgoffwyd ni nad y babi, na'r oedolion, na hyd yn oed y dŵr a ddefnyddiwyd oedd y ffactor fwyaf allweddol yn y gwasanaeth, ond Iesu Grist ei hun. Ef yw'r un sydd wedi'n glanhau â'i waed ei hun, ac Ef yw Arglwydd pawb: 'wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear.' (Phil. 2:10) A minnau yn cychwyn ar gyfnod newydd fel Gofalaeth, boed i ni ddilyn esiampl Noa gan ymateb i ras rhyfeddol Duw mewn ffydd gan gofio fod ffyddlondeb yr Arglwydd yn dragwyddol. Ac ar ben hynny, trwy nerth yr Ysbryd Glân, beth am i ni sicrhau fod Iesu, gwrthrych ein ffydd yn cael y flaenoriaeth, a'r clod y mae'n ei haeddu ym mhopeth y byddwn yn ei wneud trwy'r amser.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Mercher Bydd **Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yn y Festri yn Llansannan am 7.00. Aneurin fydd y siaradwr gwadd ac fe fydd yn rhannu ei daith bywyd "O Fizoram i Lansannan". Croeso i bawb.

Iau Bydd **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yn Llanrhaeadr am 6:00.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00 pryd y bydd nifer o ieuencid y Fro yn cael eu derbyn yn aelodau. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a chawn gyfle i gymdeithasu dros baned ar ôl yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yn arwain Gwasanaeth Teuluol yng Nghefn Meiriadog am 2.00 lle bydd cyflwyniad ar y Cartref Cariadus 'Hmangaihna In' a chyfle i roi rhodd tuag at yr apêl. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Mawrth Pwyllgor Adeiladau am 7.30. Croeso i bob aelod.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Dafydd Job yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf Bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Aneurin fydd yn arwain yr oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Dafydd Job yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir gwasanaeth arbennig yn Eglwys Henllan am 11.00 i ddiolch i'r Canon Philip Williams am ei wasanaeth i'r ardal, a bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn yn y Neuadd.

Sul nesaf Bydd Mr Tom I. Williams yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a chyfle i lawenhau gyda Maldwyn a Meira Jones ar dderbyn Medal Gee eleni. Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul am 11.15.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd yng Nghefn Berain am 10.00 pryd y bydd Owain a Nia yn cyflwyno Anni Clwyd i'w bedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y bedydd yn oedfa'r bore. Yn Llanefydd, cynhelir Ysgol Sul am 10.00 a bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com 📞 07814 660291 neu i

Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau